Rumney & Trowbridge – Greenway Road: Cael gwared ar rwystrau culhau ffordd

Disgrifiad o'r Cynllun a Gynigir

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch ei gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Greenway Road.

Ar hyn o bryd, mae yna dair nodwedd culhau blaenoriaeth ar hyd Greenway Road sy'n lleihau llif traffig dwy ffordd i un rhes, un ger y gyffordd ger Heron Road, un ger y gyffwrdd wrth Rhyl Road ac un ger y gyffordd ger Ferntree Drive.

Cynigir eu gwaredu a gosod nodweddion arafu traffig gwahanol yno. Gall rhwystrau culhau'r ffordd amharu ar lif traffig, cythruddo gyrwyr, ac achosi oedi i deithiau bws. Bydd eu gwaredu'n gwella dibynadwyedd amseroedd bysus drwy eu helpu i symud.

Greenway Road / Heron Road – byddwn yn cael gwared ar y rhwystrau culhau ffordd presennol ac yn adeiladu croesfan sebra ddyrchafedig yn eu lle.

Greenway Road / Rhyl Road – byddwn yn cael gwared ar y rhwystrau culhau ffordd presennol ac yn adeiladu croesfan sebra ddyrchafedig yn eu lle.

Greenway Road / Ferntree Road – byddwn yn cael gwared ar y rhwystrau culhau ffordd presennol ac yn adeiladu croesfan sebra ddyrchafedig yn eu lle.

Bydd y mesurau arafu traffig yn gwella cyfleusterau croesfan i gerddwyr yr ardal a hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Greenway Road sy'n creu priffordd fwy diogel i bawb sy'n ei defnyddio.

Ariennir y cynllun drwy gyllid Trafnidiaeth Leol (Blaenoriaeth i Fysus) Llywodraeth Cymru sydd am leihau amseroedd teithio trafnidiaeth gyhoeddus.

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn rhannu unrhyw sylwadau sydd gennych am y cynigion gyda ni. Rydym yn deall y gallai fod gennych awgrymiadau eraill i wella diogelwch ar hyd Greenway Road. O ganlyniad i gyfyngiadau ar arian efallai na allwn newid y cynlluniau hyn ryw lawer ar yr adeg hon, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau rydym yn eu derbyn i'w hymgorffori yng nghynlluniau'r dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn 23/08/2019 at ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros groesfan pâl. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â rhwystrau ymwthiol sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra Ymwthiol. Croesfan sebra ag arni ddarnau ymwthiol er mwyn culhau'r ffordd i'r lled lleiaf ar gyfer traffig dwy ffordd. Mae hyn yn gwella gwelededd i ac o gerddwyr sy'n defnyddio'r groesfan. Gall bwrdd arafu fod yn rhan o'r cynllun hefyd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. Croesfan sebra sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar gyffordd fwrdd, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Rhwystrau Ymwthiol. Darn o lwybr troed sydd wedi ei ledu. Gellir eu defnyddio mewn sawl gwahanol sefyllfa, e.e. wrth ail-lunio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio neu leihau'r pellter sydd i gerddwyr groesi'r ffordd. Gallant wella gwelededd i ac o gerddwyr neu yrwyr sy'n aros wrth gyffordd.

Porth Cul Blaenoriaethol. Mesur arafu traffig gyda rhwystrau ymwthiol yn culhau'r ffordd fel mai ond un cerbyd ar y tro all deithio drwy'r porth. Ym mhob cynllun newydd i gulhau ffyrdd, rhoddir blaenoriaeth i geir sy'n teithio o un cyfeiriad. Gallant hefyd gynorthwyo cerddwyr i groesi'r ffordd oherwydd bod y ffordd yn gulach a bod gwell gwelededd. Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan fo nifer tebyg o gerbydau yn defnyddio'r ffordd i'r ddau gyfeiriad, gyda 10 i 20 o gerbydau y funud yn ystod yr awr frig.

Lleoedd Croesi i Gerbydau Mae lle croesi i gerbydau yn eich galluogi i gael mynediad at eich eiddo mewn modd cyfreithiol, diogel a hawdd pan ydych yn defnyddio car neu gerbyd domestig arall. Mae hyn yn golygu bod cyrbau'n cael eu gostwng ("cwrbyn isel") i lefel y lôn gerbydau a bod y droedffordd, neu lain ymyl, yn cael ei chryfhau i ddal pwysau'r cerbydau sy'n ei chroesi. Mae'n drosedd i yrru ar droedffordd oni bai bod lle croesi i gerbydau wedi'i awdurdodi a'i osod. Yn ogystal â rhesymau diogelwch, gallech ddifrodi'r droedffordd neu unrhyw bibellau neu geblau sydd wedi'u claddu o dan y droedffordd. Mae'r lle croesi yn eich galluogi i basio'n ddiogel o'r lôn gerbydau, gan beidio â rhwystro'r briffordd. Fel rhan o'n cynlluniau gwella, mae'n bosibl darparu lle croesi newydd i gerbydau, yn amodol ar y telerau ac amodau angenrheidiol. Ond, rhaid i'r rheiny sy'n ceisio lle croesi i gerbydau gael Cytundeb Priffordd gennym o flaen llaw. Yn dibynnu ar sut y mae'r ffordd wedi'i Dosbarthu, efallai y bydd yn angenrheidiol cael Caniatâd Cynllunio hefyd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.caerdydd.gov.uk

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **23/08/2019**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/08/2019**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **23/08/2019**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/08/2019**

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **23/08/2019**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/08/2019**